# Y Pwyllgor Cyllid

12 Tachwedd 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 20 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Hoffwn wneud cais rhyddid gwybodaeth a chael copi o'r canlynol:*

I. *Pob sefydliad a wahoddwyd i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid;*
II. *Rhestr o bob sefydliad a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid er na chafodd wahoddiad i wneud hynny;*
III. *Nifer yr unigolion a wahoddwyd i ddarparu tystiolaeth nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad ag unrhyw sefydliadau a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid;*
IV. *Nifer yr unigolion [rhanddeiliaid a oedd wedi defnyddio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y gorffennol] a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid er na chawsant wahoddiad i wneud hynny;*
V. *Rhestr o bob fforwm yn y cyfryngau [A wnewch chi enwi'r papurau newydd] lle hysbysebwyd [ymgynghoriad] y Pwyllgor Dethol Cyllid;*
VI. *Copi o gofnodion yr holl gyfarfodydd yn ymwneud â thrafod y dystiolaeth ynghylch ystyried pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;*
VII. *Mae rai datganiadau ar y wefan yn Gymraeg yn unig; hoffwn gael copi o'r rhain yn Saesneg.*

Mae'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani wedi'i nodi isod:

I. *Pob sefydliad a wahoddwyd i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid;*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru
Buddug.Saer@Assembly.Wales
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Gweler y daenlen atodedig i weld rhestr o'r sefydliadau a wahoddwyd i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid.

QI. Invited Organisations.xlsx

II. *Rhestr o bob sefydliad a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid er na chafodd wahoddiad i wneud hynny;*

Dyma'r sefydliadau a ddarparodd dystiolaeth er na chawsant wahoddiad i wneud hynny:

- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Dr Richard Kirkham, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Sheffield
- Gwasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol (ISCAS)
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

III. *Nifer yr unigolion a wahoddwyd i ddarparu tystiolaeth nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad ag unrhyw sefydliadau a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid;*

Darparwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan dri unigolyn.

Cyhoeddwyd pob ymateb i'r ymgynghoriad ar dudalen y Pwyllgor ar y we: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=166

Mae'r elfen hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill. Felly, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth hon ar wahân.

IV. *Nifer yr unigolion [rhanddeiliaid a oedd wedi defnyddio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y gorffennol] a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyllid er na chawsant wahoddiad i wneud hynny;*

Nid oes gwybodaeth wedi'i chofnodi. Nid oes gan y Pwyllgor Cyllid wybodaeth am bwy sydd wedi defnyddio gwasanaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y gorffennol.

V. *Rhestr o bob fforwm yn y cyfryngau [A wnewch chi enwi'r papurau newydd] lle hysbysebwyd [ymgynghoriad] y Pwyllgor Dethol Cyllid;*

Cafodd ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ei gyhoeddi ar dudalen y Pwyllgor ar y we, ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ac fe gyhoeddwyd datganiad i'r wasg. Ni chafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu'n benodol mewn unrhyw bapurau newydd.

*VI. Copi o gofnodion yr holl gyfarfodydd yn ymwneud â thrafod y dystiolaeth ynghylch ystyried pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.*

| **Pwyllgor** | **Dyddiad y cyfarfod** | **Cofnodion** | **Trawsgrifiad** |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cyllid | 21/01/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 04/02/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 05/02/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd | 11/02/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 25/02/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 05/03/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 11/03/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 19/03/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 25/03/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 29/04/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 13/05/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |
| Y Pwyllgor Cyllid | 15/07/2015 | Cofnodion | Trawsgrifiad |

*VII. Mae rhai datganiadau ar y wefan yn Gymraeg yn unig; hoffwn gael copi o'r rhain yn Saesneg.*

Mae'r cyfieithiadau a ganlyn ar gael fel atodiadau:

- Atodiad A - PSOW 11 - Comisiynydd y Gymraeg (cyfieithiad mewnol)
- Atodiad B - PSOW 39 - Anne Carys Jones (cyfieithiad mewnol)

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF